Inspection of Youth Offending
Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection
Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

## Adroddiad ar waith troseddwyr ifanc yn:

## **Caerdydd**

ISBN: 978-1-84099-294-6

2010

## Rhagair

Cafodd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith troseddwyr ifanc yng Nghaerdydd ei gynnal fel rhan o'r rhaglen Arolygu Gwaith Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi archwilio sampl gynrychioliadol o achosion troseddwyr ifanc o'r ardal, ac wedi ystyried pa mor aml y cafodd yr agweddau hynny ar y gwaith sy'n ymwneud â Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu eu cyflawni i safon ddigon uchel.

Daethom i'r casgliad fod agweddau Diogelu'r gwaith wedi cael eu cyflawni'n ddigon da 72% o'r amser. O ran yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd, cafodd gwaith i leihau *Risg pob unigolyn o achosi Niwed i Eraill* ei wneud yn ddigon da 73% o'r amser, a chafodd y gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu ei wneud yn ddigon da 78% o'r amser. Ceir dadansoddiad manylach o'n canfyddiadau yng nghorff yr adroddiad hwn, a cheir crynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Gellir edrych ar y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein canfyddiadau o'r rhannau o Loegr a arolygwyd hyd yma. Hyd yn hyn, y sgôr gyfartalog ar gyfer gwaith *Diogelu* oedd 64%, gyda'r sgorau'n amrywio rhwng 38-82%, y sgôr gyfartalog ar gyfer gwaith *Risg o Niwed* oedd 60%, gyda'r sgorau'n amrywio rhwng 36-85%, a'r sgôr gyfartalog ar gyfer gwaith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* oedd 66%, gyda'r sgorau'n amrywio rhwng 50–82%.

Gwelsom dîm lle'r oedd y staff wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r plant a'r bobl ifanc a oedd yn cael eu goruchwylio ganddynt. Roedd y gwaith yn elwa ar gyfraniadau cadarnhaol nifer o wahanol asiantaethau partner sydd wedi eu lleoli ar yr un safle.

Er hyn, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod cynlluniau rheoli risg a statws agored i niwed o ansawdd da'n cael eu cynhyrchu a'u gweithredu ym mhob achos perthnasol.

Ar y cyfan, credwn fod y canfyddiadau hyn yn rhai calonogol iawn. Mae'n edrych yn debygol iawn y bydd Tîm Troseddwyr Ifanc Caerdydd, dan arweiniad y tîm rheoli, yn ymateb i'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn ac yn gwella rhagor ar y gwasanaethau a gynigir ganddynt.

*Andrew Bridges*
*Prif Arolygydd Prawf EM*

*Medi 2010*

## Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i holl staff y Tîm Troseddwyr Ifanc, aelodau’r Bwrdd Rheoli a’r sefydliadau partner am eu cymorth er mwyn sicrhau bod yr arolygiad hwn wedi mynd rhagddo’n ddirwystr.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Joseph Simpson* |
| *Arolygwyr* | *Les Smith; Sheila Booth* |
| *Aseswyr yr AAC* | *Mike Bressington; David Geraint Spacey* |
| *Staff Cymorth* | *Catherine Calton* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Catherine Calton; Alex Pentecost; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Alan MacDonald* |

## Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Cydnabyddiaeth | 4 |
| | Sgorio – a Thabl Crynodeb | 6 |
| | Argymhellion | 7 |
| | Y camau nesaf | 7 |
| | Persbectif y defnyddwyr gwasanaeth | 8 |
| | Rhannu arferion da | 9 |
| 1. | ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU | 10 |
| | 1.1 Risg o Niwed i Eraill (Ron) | 10 |
| | 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu (ToA) | 11 |
| | 1.3 Diogelu | 12 |
| 2. | DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU | 16 |
| | 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill | 13 |
| | 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu | 14 |
| | 2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc | 15 |
| 3. | CANLYNIADAU | 17 |
| | 3.1 Sicrhau canlyniadau | 17 |
| | 3.2 Cynnal canlyniadau | 18 |
| | Atodiad 1: Crynodeb | 19 |
| | Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol | 20 |
| | Atodiad 3a: Siart data'r arolygiad | 21 |
| | Atodiad 3b: Data'r arolygiad | 22 |
| | Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer | 22 |
| | Atodiad 5: Rhestr Termau | 23 |

## Sgorio – a Thabl Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sgorau canran ar gyfer pob un o'r 'meini prawf ymarfer' gan ddangos pa mor aml y mae pob agwedd ar y gwaith wedi cyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani. Yn yr arolygiadau hyn rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar yr agweddau hynny ar y gwaith sy'n ymwneud â Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ym mhob sampl o achosion.

O ganlyniad, rydym yn gallu rhoi sgôr sy'n dangos pa mor aml yr oedd agweddau *Gwarchod y Cyhoedd* a *Diogelu'r* achosion a aseswyd yn cyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani, a cheir crynodeb o hynny yma.

Rydym hefyd yn rhoi 'Sylw' penodol gyferbyn â phob sgôr, i nodi a oeddem yn ystyried bod angen i'r agwedd hon ar y gwaith wella **YCHYDIG, RHYWFAINT, YN SYLWEDDOL** neu'n **ARW** yn y dyfodol agos.

| ***Sgôr Diogelu*:** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o'r gwaith *Diogelu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae'r sgôr hwn yn bwysig i'n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt ai peidio. | |
| ***Sgôr:*** ***72%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd – Sgôr Risg o Niwed*:** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Risg o Niwed* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae'r sgôr hwn yn bwysig i'n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt ai peidio. | |
| ***Sgôr:*** ***73%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd – Sgôr Tebygolrwydd o Aildroseddu*:** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. | |
| ***Sgôr:*** ***78%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella YCHYDIG*** |

Rydym yn cynghori darllenwyr adroddiadau i beidio â cheisio cymharu sgorau gwahanol ardaloedd yn rhy fanwl. Nid yw cymariaethau fel hyn o reidrwydd yn ddilys oherwydd bod maint y samplau, ynghyd â phroffil yr achosion yn sampl pob ardal, yn amrywio rhywfaint. Credwn ei bod yn well edrych ar y sgôr fel crynodeb byr o'r hyn a welsom mewn ardal unigol, ac fel ffocws ar gyfer gwelliannau yn yr ardal honno yn y dyfodol.

## Argymhellion (nodir pwy sy'n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)

Mae angen gwneud newidiadau er mwyn sicrhau, mewn cyfran uwch o achosion:

(1) bod asesiad da a phrydlon yn cael ei gwblhau ar y dechrau o ba mor agored i niwed yw'r unigolyn a beth yw'r *Risg o Niwed i Eraill*, fel sy'n briodol i'r achos penodol (Rheolwr y Tîm Troseddwyr Ifanc)

(2) o ganlyniad i'r asesiad, bod cofnod y cynllun ymyrryd yn nodi'n benodol beth fydd yn cael ei wneud er mwyn sicrhau lles y plentyn neu'r person ifanc o hynny ymlaen, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn aildroseddu, ac er mwyn lleihau unrhyw *Risg o Niwed i Eraill* a nodwyd (Rheolwr y Tîm Troseddwyr Ifanc)

(3) bod cynlluniau ymyrryd yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â dioddefwyr ac amrywiaeth (Rheolwr y Tîm Troseddwyr Ifanc)

(4) bod tystiolaeth yn y ffeil o waith sicrhau ansawdd rheolaidd gan reolwyr, fel sy'n briodol i'r achos penodol (Rheolwr y Tîm Troseddwyr Ifanc)

(5) bod gwaith ar y cyd â'r Gwasanaethau Plant, i roi sylw i faterion Diogelu sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, yn amlwg (Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r Tîm Troseddwyr Ifanc).

## Y camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwelliannau sy'n rhoi sylw i'r argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM bedair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn ar yr arolygiad. Ar ôl ei ddrafftio'n derfynol, bydd y cynllun yn cael ei anfon ymlaen i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro ei weithrediad.

## Persbectif y defnyddwyr gwasanaeth

### Plant a phobl ifanc

Llenwodd tri ar ddeg o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad.

- Dywedodd pob un o'r tri phlentyn a pherson ifanc a oedd â gorchymyn atgyfeirio eu bod yn gwybod beth oedd y gorchymyn, ond dim ond un ddywedodd ei fod wedi cael eglurhad o gontract ei orchymyn atgyfeirio. Roedd saith o'r naw a ddywedodd eu bod yn cael goruchwyliaeth, wedi cael cyfle i drafod eu goruchwyliaeth neu eu cynllun dedfryd.
- Dywedodd pob un o'r 12 a atebodd y cwestiwn eu bod yn gwybod pam eu bod wedi dod at y Tîm Troseddwyr Ifanc a bod y staff wedi egluro beth fyddai'n digwydd yn ystod goruchwyliaeth.
- Dywedodd un ar ddeg o'r deuddeg plentyn a pherson ifanc a atebodd y cwestiwn eu bod yn meddwl bod gan staff y Tîm Troseddwyr Ifanc ddiddordeb yn eu helpu. Dywedasant hefyd fod staff y Tîm Troseddwyr Ifanc yn gwrando ar yr hyn a oedd ganddynt i'w ddweud.
- Dywedodd pob un o'r 11 ymatebydd fod gweithwyr y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi ei gwneud yn hawdd iddynt ddeall sut y gallai gwaith y Tîm Troseddwyr Ifanc eu helpu. Yn ôl un ohonynt: *'fe wnaeth gweithiwr y Tîm Troseddwyr Ifanc egluro wrthyf fi mewn geiriau syml'.* Yn ôl un arall, *'maen nhw'n siarad gyda chi am droseddau a sut maen nhw'n effeithio ar bobl'.*
- Dywedodd un ymatebydd fod rhai pethau yn ei fywyd a oedd yn codi ofn arno, a bod y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi ei helpu i fynd i'r afael â'r materion hynny.
- Pan ofynnwyd iddynt a oedd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn cymryd camau er mwyn rhoi sylw i'w hanghenion, dywedodd saith fod hynny'n digwydd, dywedodd tri fod hynny'n digwydd gan amlaf, a dywedodd un nad oedd yn gwybod. Yn ôl un o'r ymatebwyr: *'maen nhw'n dîm da ar gyfer be maen nhw'n wneud'*. Yn ôl un arall: *'wel maen nhw'n helpu ti pan ti angen help ac mae hynny'n ddigon da i fi'.*
- Dywedodd pump o'r rhai hynny a oedd wedi ymateb i'r cwestiwn eu bod wedi llenwi ffurflen *Beth ydych CHI'N ei feddwl?*, dywedodd dau nad oeddent wedi ei llenwi, ac roedd pedwar yn methu â chofio.
- Dywedodd pump o'r un ar ddeg ymatebydd fod pethau wedi gwella iddynt o ganlyniad i waith roeddent wedi ei wneud gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc a dywedodd chwech nad oedd pethau wedi gwella.
- Dywedodd naw o'r un ar ddeg plentyn a pherson ifanc a atebodd y cwestiwn, eu bod yn meddwl eu bod yn llai tebygol o aildroseddu o ganlyniad i'r gwaith roeddent wedi ei wneud gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc. Dywedodd dau nad oedd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth. Dywedodd un ymatebydd: *'mae dod at y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi fy helpu i gadw allan o drwbl a chael lle ar gwrs hyfforddiant'*. Dywedodd un arall ei fod yn llai tebygol o aildroseddu oherwydd *'dyw e ddim werth y straen.'* Yn ôl un arall eto: *'mae'n cael trefn ar fy nefnydd o gyffuriau a faint rwy'n ei yfed'.*

### Dioddefwyr

Ni chafodd unrhyw holiadur ei lenwi gan bobl a oedd wedi dioddef o ganlyniad i droseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc.

## Rhannu arferion da

**Ceir enghreifftiau isod o arferion da a welsom yn y Tîm Troseddwyr Ifanc.**

| | |
|---|---|
| **Asesu a Chynllunio Dedfrydau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 1.2** | Roedd Tom yn 16 oed ac wedi bod drwy drawma teuluol mawr iawn yn ystod ei flynyddoedd ffurfiannol. Roedd ei fam a'i dad yn defnyddio cyffuriau ac roedd ei dad wedi marw o ganlyniad i orddos o gyffuriau. Roedd Tom wedi cael cymorth gan weithwyr cymdeithasol oherwydd yr esgeulustod yr oedd wedi ei ddioddef. Pan oedd yn 15 oed, cafwyd ef yn euog o nifer o droseddau lladrad a gorfodwyd ef i gael goruchwyliaeth ddwys. Yn dilyn y broses asesu a chynllunio nodwyd y prif faterion a oedd yn gysylltiedig â'r achos, ac roedd yr ystod o ymyriadau a gynlluniwyd yn rhoi sylw i'w droseddau a'i anghenion fel plentyn agored i niwed. Cydweithredodd Tom yn llwyr â'r staff a oedd yn darparu gwasanaethau iddo ac addasodd rheolwr yr achos ei ffordd o weithio er mwyn ennyn ei ddiddordeb. Erbyn adeg yr arolygiad roedd ei drefniadau llety a'i drefniadau cymorth teulu wedi gwella. Er bod Tom wedi aildroseddu unwaith, roedd y trosedd yn un llawer llai difrifol. |
| **Darparu ac Adolygu Ymyriadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 1.3** | Roedd Ben yn 17 oed ac roedd wedi cael ei anfon i'r ddalfa yn dilyn cyfres gynyddol o droseddau. Roedd ei ymddygiad wedi dirywio ar ôl iddo gael ei gau allan o gartref y teulu. Roedd Ben wedi cael diagnosis anghywir o anhwylder diffyg canolbwyntio yn y gorffennol, ac roedd hyn yn gysylltiedig â chael ei wahardd o'r ysgol yn y diwedd. Gofynnodd rheolwr yr achos i arbenigwr asesu ei anghenion a darganfuwyd bod ganddo anabledd dysgu difrifol. Roedd hyn yn gymorth i egluro anhawster Ben i ddeall a chadw at reolau yn y cartref ac yn yr ysgol. Yn ystod y cyfnod yn y ddalfa cynorthwyodd rheolwr yr achos y teulu i wneud cynlluniau i gael Ben yn ôl adref, a chysylltwyd â gwasanaethau cymunedol perthnasol i gael cymorth â'i anghenion. Cwblhaodd Ben y cyfnod ar drwydded yn llwyddiannus, roedd ei ymddygiad gartref yn sefydlog ac nid oedd wedi aildroseddu. |
| **Canlyniadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 2.3** | Roedd Kim yn Blentyn yn Derbyn Gofal ac roedd yn byw gyda'i rhiant maeth ar ôl i'w pherthynas gyda'i mam a'i llystad chwalu. Gofynnodd rheolwr yr achos, yn gynnar yn y broses, i nyrs seiciatrig y Tîm Troseddwyr Ifanc a gweithwyr CAMHS weithio gyda Kim, a oedd yn dangos arwyddion o iselder a hunan-niweidio. O ganlyniad i'w gwaith sefydlogodd iechyd meddwl Kim, ailgydiodd yn ei haddysg ac erbyn diwedd y gorchymyn roedd yn bwriadu mynd yn ei blaen i goleg chweched dosbarth. |

# 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU

| 1.1 Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Mae'r asesiad o Risg o Niwed yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, yn ystyried materion dioddefwyr ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli'r Risg o Niwed.* | |
| ***Sgôr:*** ***79%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella YCHYDIG*** |

## *Cryfderau:*

(1) Cwblhawyd sgriniad RoND (Risg o Niwed Difrifol) ASSET mewn 94% o'r achosion yn y sampl ac roedd bron bob un o'r rhain wedi ei gwblhau mewn pryd. Roeddem yn ystyried bod dros dri chwarter y sgriniadau RoND yn gywir. Roedd y sgriniadau'n dangos bod angen dadansoddiad llawn mewn 36 achos. Roedd hyn wedi ei wneud ym mhob un ond tri o'r achosion perthnasol.

(2) Roeddem yn ystyried bod y dosbarthiad o RoND yn gywir mewn 93% o'r achosion.

(3) Roedd asesiadau RoND wedi cael eu hanfon at sefydliadau cadw, cyn pen 24 awr, ym mhob un o'r 12 achos perthnasol.

(4) Roedd pedwar achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriad MAPPA. Roedd y rhain i gyd wedi eu gwneud yn brydlon ac roedd pob un o'r pedwar yn cynnwys y dosbarthiad MAPPA cywir.

(5) Roedd tystiolaeth bod manylion y RoND wedi cael eu cyfleu i'r holl staff perthnasol mewn 89% o'r achosion priodol.

(6) O'r 24 achos a oedd angen Cynllun Rheoli Risg, roedd hyn wedi cael ei wneud ar gyfer 79%.

## *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd sylw wedi ei roi i'r angen i gynllunio ar gyfer y materion *RoN* mewn 53% o'r achosion lle nad oedd angen Cynllun Rheoli Risg.

(2) Dim ond 14 o'r 25 achos perthnasol oedd â Chynllun Rheoli Risg boddhaol. Materion dioddefwyr a diffyg eglurder ynglŷn â'r ymatebion a oedd yn cael eu cynllunio, a rolau a chyfrifoldebau staff, oedd y ffactorau a oedd yn cyfyngu amlaf ar ansawdd y dogfennau hyn.

| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o'r Tebygolrwydd o Aildroseddu (ToA) yn gynhwysfawr, cywir ac amserol ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i leihau'r ToA.* | |
| ***Sgôr:*** | ***Sylw:*** |
| ***76%*** | ***Angen gwella YCHYDIG*** |

## *Cryfderau:*

(1) Roedd asesiad amserol o'r ffactorau sy'n cael eu cysylltu â throseddu ar gyfer plant a phobl ifanc ym mhob un ond un o'r 61 achos.

(2) Wrth baratoi asesiadau, gwelsom dystiolaeth o ymgysylltu gweithredol ag 89% o'r plant a'r bobl ifanc ac â'u rhieni/gofalwyr mewn 79% o'r achosion.

(3) Roedd ansawdd yr asesiad cychwynnol o'r ToA yn foddhaol mewn 76% o'r achosion. Gwneid defnydd da o'r wybodaeth a oedd ar gael gan asiantaethau eraill, gan gynnwys yr heddlu, darparwyr addysg, sefydliadau cadw, gwasanaethau iechyd meddwl a gweithwyr camddefnyddio sylweddau.

(4) Roedd asesiadau wedi cael eu hanfon at sefydliadau cadw cyn pen 24 awr, ym mhob un o'r 17 achos perthnasol.

(5) Roedd gan bron bob un o'r achosion gynllun ymyrryd. Roedd 89% o'r rhain wedi eu cwblhau'n brydlon ac roedd 85% yn rhoi sylw digonol i ffactorau sy'n cael eu cysylltu â throseddu.

(6) Roedd pob un ond dau o'r cynlluniau ymyrryd yn adlewyrchu safonau cenedlaethol. Roeddent yn rhoi sylw i bwrpas y ddedfryd mewn 95% o'r achosion. Roedd bron bob un yn canolbwyntio ar y newid y gellid ei gyflawni ac roedd 88% yn rhoi ffurf glir i'r gorchymyn. Roedd mwy na'u tri chwarter yn pennu amcanion perthnasol.

(7) Gwelsom fod 80% o'r plant a'r bobl ifanc wedi ymwneud yn weithredol â'r broses gynllunio ynghyd â 74% o'r rhieni/gofalwyr. Roedd nifer o wahanol weithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill hefyd wedi cyfrannu at y cynlluniau. Gwelsom sefydliadau cadw, yr heddlu, darparwyr addysg, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd meddwl a'r rhai hynny sy'n ymdrin ag anghenion camddefnyddio sylweddau yn cael eu cynnwys fel mater o drefn.

(8) Roedd cynlluniau ymyrryd wedi cael eu hadolygu ar adegau priodol mewn 80% o'r achosion.

## *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Dim ond 54% o'r achosion oedd â thystiolaeth bod arddull dysgu'r plentyn neu'r person ifanc wedi cael ei hasesu.

(2) Dim ond mewn 55% o'r achosion y gwelsom ffurflenni cyfredol *Beth ydych CHI'N ei feddwl?*

| 1.3 Diogelu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o anghenion Diogelu yn gynhwysfawr, cywir ac amserol ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli Diogelu ac i leihau statws agored i niwed.* | |
| ***Sgôr:***<br>***69%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cwblhawyd sgriniad statws agored i niwed ASSET mewn 98% o'r achosion. Roedd bron bob un o'r rhain wedi ei gwblhau'n brydlon.

(2) Roedd anghenion diogelu wedi cael eu hadolygu'n briodol mewn 75% o'r achosion.

(3) Roedd y sefydliadau diogel wedi cael eu hysbysu'n brydlon ynglŷn â phryderon yn ymwneud â Diogelu mewn naw o'r deg achos perthnasol a gwelsom gysylltu gweithredol ynglŷn â'r materion hynny â staff o'r sefydliadau diogel.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Dim ond 45% o'r Cynlluniau Rheoli Statws Agored i Niwed oedd wedi cael eu cwblhau'n ddigonol. Y ffactorau a oedd yn cyfyngu amlaf ar ansawdd y dogfennau hyn oedd; ymatebion a oedd yn cael eu cynllunio yn annigonol neu'n aneglur; rolau a chyfrifoldebau'n aneglur a goblygiadau materion amrywiaeth ddim yn cael eu hystyried yn llawn.

(2) Canfuwyd copïau o gynlluniau eraill a oedd yn ymwneud â gofal mewn llai na hanner y 23 o ffeiliau perthnasol. Nid oedd staff perthnasol y Tîm Troseddwyr Ifanc yn gallu cael mynediad at system wybodaeth *Care First* yr adran Gwasanaethau Plant. Roedd hyn yn cyfyngu ar y trefniadau rhannu gwybodaeth a chydweithio rhwng y Tîm Troseddwyr Ifanc a'r Gwasanaethau Plant.

(3) Dim ond mewn 20 o'r 41 achos perthnasol y gwelwyd tystiolaeth bod rheolwyr yn arolygu asesiadau o statws agored i niwed yn ddigonol.

### Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Asesu a Chynllunio Dedfrydau: 75%

### SYLWADAU ar Asesu a Chynllunio Dedfrydau yn gyffredinol:

Yn 2007, sefydlodd y Tîm Troseddwyr Ifanc fforwm cynllunio achosion a oedd yn canolbwyntio ar bob plentyn a pherson ifanc a oedd wedi cael ei nodi fel un a oedd yn achosi Risg uchel ac uchel iawn o Niwed, a oedd yn Debygol o Aildroseddu ac a oedd â statws agored i niwed uchel. Roedd y fforwm cynllunio achosion yn helpu i gydgysylltu ymatebion amlasiantaethol ac ymatebion MAPPA mewn achosion perthnasol. Gwelsom dystiolaeth o'r cyfleuster hwn yn cynorthwyo staff y Tîm Troseddwyr Ifanc i asesu a chynllunio'n effeithiol ar gyfer gwaith yn yr achosion perthnasol. Dangosodd data'r arolygiad fod achosion a oedd wedi cael eu hasesu fel rhai statws uchel o ran pryderon ynglŷn â *RoN* yn perfformio ychydig yn well na'r cyfartaledd, o ran asesu a chynllunio ar gyfer y materion hynny.

## 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU

| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i warchod y cyhoedd drwy leihau risg y plentyn neu'r person ifanc o achosi niwed i eraill.* | |
| ***Sgôr:***<br>***69%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd y *RoN* wedi cael ei hadolygu yn unol â'r amserlen mewn 85% o'r achosion.

(2) Nodwyd cyfraniadau effeithiol tuag at gyfarfodydd amlasiantaethol eraill ym mhob un o'r 14 achos yn y ddalfa ac mewn 24 o'r 27 achos yn y gymuned.

(3) Roedd ymweliadau cartref â phwrpas penodol wedi eu cynnal, yn unol â lefel y *RoN*, mewn 91% o'r achosion.

(4) Roedd adnoddau priodol wedi eu dyrannu yn unol â materion *RoN* mewn 95% o'r sampl.

(5) Darparwyd ymyriadau penodol i reoli *RoN* yn unol â'r cynlluniau mewn 80% o'r achosion yn y ddalfa.

(6) Gwelwyd defnydd effeithiol o MAPPA ym mhob un o'r pedwar achos lle'r oedd angen hynny.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Dim ond mewn 58% o'r achosion perthnasol y disgwylid newidiadau mewn ffactorau *RoN* lle bynnag yr oedd hynny'n ddichonadwy. Dim ond mewn 54% o'r achosion hyn y nodwyd ac y rhoddwyd sylw i'r rhain yn fuan.

(2) Dim ond 8 o'r 44 achos perthnasol oedd â thystiolaeth bod asesiad llawn o ddiogelwch dioddefwyr wedi ei gynnal. Dim ond naw o'r achosion hyn oedd yn dangos bod blaenoriaeth uchel wedi ei rhoi i ddiogelwch dioddefwyr.

| 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r rheolwr achos yn cydgysylltu ac yn hwyluso'r gwaith systematig o ddarparu holl elfennau'r cynllun ymyrryd.* | |
| ***Sgôr:***<br>***83%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

## *Cryfderau:*

(1) Darparwyd ymyriadau yn unol â'r cynllun ymyrryd mewn 73% o'r achosion. Roedd bron bob un o'r ymyriadau o ansawdd da ac wedi eu cynllunio i leihau'r ToA. Roedd mwy na thri chwarter yr ymyriadau'n briodol i arddull dysgu'r plentyn neu'r person ifanc.

(2) Adolygwyd ymyriadau, o fewn y cyfnod priodol, mewn mwy na dwy ran o dair o'r achosion.

(3) Roedd staff y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi cyfrannu'n briodol at yr adolygiad o ymyriadau mewn 88% o'r achosion yn y ddalfa ac mewn 93% o'r rhai hynny yn y gymuned.

(4) Mewn 94% o'r achosion yn y ddalfa ac mewn 98% o'r rhai hynny yn y gymuned, roedd staff y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi rhoi cymhelliant gwirioneddol i'r plentyn neu'r person ifanc ac wedi atgyfnerthu ei ymddygiad cadarnhaol.

(5) Roedd adnoddau priodol wedi eu dyrannu i roi sylw i faterion ToA mewn 93% o'r achosion.

(6) Mewn 92% o'r achosion yn y ddalfa ac mewn 94% o'r rhai hynny yn y gymuned, roedd gweithwyr y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi ymgysylltu o ddifrif â rhieni/gofalwyr.

## *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Canfuwyd bod sylw wedi'i roi i'r holl faterion amrywiaeth wrth gyflawni'r ymyriadau mewn 59% o'r achosion.

| 2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i ddiogelu a lleihau statws agored i niwed y plentyn neu'r person ifanc.* | |
| ***Sgôr:***<br>***77%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

## *Cryfderau:*

(1) Roedd yr holl gamau angenrheidiol wedi eu cymryd i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc ym mhob un o'r achosion yn y ddalfa ac mewn 24 o'r 33 achos perthnasol yn y gymuned.

(2) Gwelwyd camau i roi sylw i faterion Diogelu yng nghyswllt plant neu bobl ifanc eraill, gan gynnwys brodyr a chwiorydd, ym mhob un o'r tri achos perthnasol yn y ddalfa ac mewn 12 o'r 14 achos yn y gymuned.

(3) Cynhaliwyd ymweliadau cartref â phwrpas penodol i roi sylw i bryderon yn ymwneud â Diogelu mewn 88% o'r sampl.

(4) Nodwyd atgyfeiriadau at asiantaethau eraill i ddibenion Diogelu mewn pump o'r chwe achos perthnasol yn y ddalfa ac mewn 22 o'r 28 achos perthnasol yn y gymuned.

(5) Roedd gwaith ar y cyd ag asiantaethau eraill, i hybu'r gwaith o Ddiogelu plant a phobl ifanc yn y gymuned, yn nodwedd gyffredin yng ngwaith y Tîm Troseddwyr Ifanc. Gwelsom dystiolaeth o gydweithio rheolaidd â nifer o sefydliadau partner; gan gynnwys yr heddlu a sefydliadau diogel, darparwyr addysg, gwasanaethau iechyd meddwl ac iechyd corfforol a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Nodwyd patrwm tebyg yng nghyswllt gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill er mwyn hybu Diogelwch plant a phobl ifanc yn y ddalfa.

(6) Ar gyfer achosion yn y ddalfa, nodwyd ymyriadau penodol i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â Diogelu mewn 75% o'r achosion ac roedd 80% ohonynt wedi cael eu hadolygu.

(7) Gwelwyd tystiolaeth bod yr holl staff wedi cefnogi a hybu lles y plentyn neu'r person ifanc drwy gydol y ddedfryd mewn 82% o'r achosion yn y gymuned ac mewn 11 o'r 16 achos yn y ddalfa.

## *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Gwelwyd tystiolaeth bod staff y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi gweithio gydag eraill er mwyn sicrhau dilyniant yn y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu wrth drosglwyddo o'r ddalfa i'r gymuned, mewn pedwar yn unig o'r saith achos lle'r oedd angen gweithio ar y cyd â Gwasanaethau Plant.

(2) Darparwyd ymyriadau penodol i hybu diogelu tra yn y ddalfa mewn tri yn unig o'r naw achos perthnasol.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith o Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau: 77%**

**SYLWADAU ar Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau yn gyffredinol:**

Darparwyd ymyriadau gan reolwyr achosion a oedd hefyd yn gallu manteisio ar y gwasanaethau sydd ar gael gan y staff arbenigol yn y tîm adnoddau. Roedd y prosesau'n helpu i sicrhau bod mewnbwn arbenigol i achosion, yn seiliedig ar asesiadau o risg ac angen, ar gael i blant a phobl ifanc. Roedd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc ddigon o adnoddau, o ran ystod o wasanaethau, gan gynnwys; gwasanaethau addysg, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd sylfaenol. Roedd hefyd wedi penodi gweithiwr cefnogi teuluoedd yn ddiweddar. Er hyn, roedd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi colli'r cyllid ar gyfer ei weithiwr cyswllt dioddefwyr, ac roedd hyn wedi gwanhau ei allu i ddatblygu gwasanaethau cyfiawnder adferol. Canfu'r arolygiad nad oedd digon o sylw'n cael ei roi i broblemau dioddefwyr mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu. Roedd diffyg cydweithio â'r Gwasanaethau Plant, mewn llawer o achosion, yn cyfyngu ar y graddau y gellid mynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â Diogelu ar sail amlasiantaethol.

# 3. CANLYNIADAU

| **3.1 Sicrhau canlyniadau:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu sicrhau yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***68%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd *RoN* yn cael ei reoli'n effeithiol mewn 82% o'r achosion perthnasol.

(2) Roedd plant a phobl ifanc wedi cydymffurfio â gofynion eu dedfrydau mewn 61% o'r achosion. Roedd camau gorfodi digonol wedi'u cymryd mewn 17 o'r 24 achos perthnasol.

(3) Gwelsom fod cynnydd wedi'i wneud yn erbyn ffactorau sy'n cael eu cysylltu â throseddu mewn nifer o achosion. Y ffactorau a oedd yn gweld cynnydd yn cael ei wneud yn amlach mewn achosion oedd: Meddwl ac ymddygiad (39%); ffordd o fyw (38%); trefniadau byw (36%) a chamddefnyddio sylweddau (34% o'r achosion).

(4) Roedd pob cam rhesymol i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel wedi'i gymryd mewn 85% o'r achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Dim ond hanner yr achosion a aseswyd gennym oedd wedi gweld gostyngiad mewn sgorau ASSET.

(2) Gwelwyd tystiolaeth o leihad yn y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â phryderon ynglŷn â Diogelu mewn 40% yn unig o'r achosion.

| 3.2 Cynnal canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r canlyniadau'n cael eu cynnal yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***77%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd sylw llawn wedi'i roi i faterion integreiddio yn y gymuned mewn 82% o'r achosion yn y gymuned a'r achosion yn y ddalfa.


(2) Roedd camau wedi cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod modd cynnal canlyniadau cadarnhaol mewn 84% o'r achosion yn y gymuned ac mewn 69% o'r rhai hynny yn y ddalfa.

### Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Canlyniadau: 71%

### SYLWADAU ar Ganlyniadau yn gyffredinol:

Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi bod â swydd wag ar gyfer swyddog gwybodaeth ers peth amser. Dim ond am gyfnod byr yr oedd y gweithiwr newydd wedi bod yn ei swydd ar adeg yr arolygiad. Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn cydnabod bod angen datblygu rhagor ar ei drefniadau ar gyfer adrodd am ganlyniadau. Roedd cynlluniau ar y gweill i roi sylw i hyn drwy'r sawl a oedd wedi'i benodi i'r swydd.

## Atodiad 1: Crynodeb



## Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol

### Ardal

Roedd Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Caerdydd wedi'i leoli yn Ne Cymru.

Roedd gan yr ardal boblogaeth o 305,353 yn ôl Cyfrifiad 2001, ac roedd 10.4% o'r boblogaeth rhwng 10 a 17 oed. Roedd hyn rywbeth yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 10.6%. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 10.4%.

Roedd poblogaeth Caerdydd yn cynnwys Prydeinwyr gwyn gan mwyaf (91.6%). Roedd y boblogaeth o gefndir du a lleiafrif ethnig (8.4%) yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 2.1%. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru a Lloegr yw 8.7%.

Roedd nifer y troseddau y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt, lle derbyniodd blant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed benderfyniad cyn llys neu benderfyniad mewn llys yn 2008/2009, sef 62 o bob 1,000, yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 46.

### Y Tîm Troseddwyr Ifanc

Roedd ffiniau'r Tîm Troseddwyr Ifanc o fewn ffiniau ardal heddlu De Cymru, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn rhan o Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant Cyngor Dinas Caerdydd ac roedd yn cael ei reoli gan reolwr gweithrediadau'r Tîm Troseddwyr Ifanc.

Roedd Bwrdd Rheoli'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r holl bartneriaid statudol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd.

Roedd pencadlys y Tîm Troseddwyr Ifanc yn Ninas Caerdydd. Roedd gwaith gweithredol y Tîm Troseddwyr Ifanc hefyd wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Roedd y rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys yn cael ei darparu gan gonsortiwm Caerdydd a'r Fro.

### Data am berfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Crynodeb o ddangosyddion cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar adeg yr arolygiad am y cyfnod rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009.


Roedd perfformiad Caerdydd o ran sicrhau bod plant a phobl ifanc a oedd yn hysbys i'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu waith addas yn 55.9%. Roedd hyn yn is na'r flwyddyn flaenorol, ac yn is na chyfartaledd Cymru o 69.0%.

Ei berfformiad o ran sicrhau llety addas erbyn diwedd y ddedfryd oedd 96.8%. Roedd hyn yn well na'r flwyddyn flaenorol ac yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 96.1%.


Roedd y 'Gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis' yn 87%, ac yn waeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 74% (Gweler y Rhestr Termau).

## Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad


Sampl Achosion: Oed ar ddechrau'r Ddedfryd





Sampl Achosion: Rhyw





Sampl Achosion: Tarddiad Ethnig




Sampl Achosion: Math o Ddedfryd




Sampl Achosion: Risg o Niwed



## Atodiad 3b: Data'r arolygiad

Cafodd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ei gyflawni ym mis Mawrth 2010

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- archwilio arferion mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall
- tystiolaeth ymlaen llaw
- ymateb i holiadur gan blant a phobl ifanc, a dioddefwyr

Rydym hefyd wedi gweld data perfformiad ac asesiadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng nghyswllt y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc hwn.

## Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn:

**http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*2nd Floor, Ashley House*
*2 Monck Street*
*London, SW1P 2BQ*

## Atodiad 5: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| Asset | Offeryn asesu systematig sy'n seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd y person ifanc, yr amgylchiadau personol a'r agweddau a'r credoau sydd wedi cyfrannu at ei ymddygiad troseddu. |
| CAF | Common Assessment Framework neu'r Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu berson ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Mae'n cael ei wneud gan weithiwr arweiniol yr achos, gyda phawb arall sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw hefyd yn cyfrannu. |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health Services neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf. |
| Careworks | Un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd YOIS+ |
| CRB | Criminal Records Bureau neu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol |
| DTO | Detention and Training Order neu'r Gorchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi: dedfryd dan glo i bobl ifanc |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella ei ragolygon gwaith |
| FTE | Full-time equivalent neu Gyfwerth ag Amser Llawn |
| HM / EM | Ei Mawrhydi |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai EM |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf EM |
| Ymyriadau; ymyriadau *adeiladol* a *chyfyngu* | Gwaith gydag unigolion a ddyfeisiwyd i newid eu hymddygiad troseddu a/neu i helpu i warchod y cyhoedd.<br>Ymyriad *adeiladol* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.<br>Ymyriad *cyfyngu* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau Risg unigolion o achosi Niwed i eraill. Er enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai *ymyriad adeiladol* gael ei roi iddynt drwy raglen troseddwyr rhyw achrededig; gallai *ymyriad cyfyngu* (i leihau ei Risg o Niwed) gael ei roi iddynt i fonitro, yn gyson a thrylwyr, eu llety, eu cyflogaeth ac unrhyw le y maent yn mynd iddo'n aml,<br>gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos. Dalier sylw: Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig. |
| ISS | Intensive Supervision and Surveillance neu Goruchwylio ac Arolygu Dwys – cyflwynwyd dan drefniadau'r Gorchymyn Ailsefydlu Ieuenctid. |
| ISSP | Intensive Supervision and Surveillance Programme neu'r Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys : mae'r ymyriad hwn ynghlwm wrth rai gorchmynion a thrwyddedau ac i ddechrau'n golygu o leiaf 25 awr o gyswllt â'r rhaglen, gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. |
| ToA | Tebygolrwydd o Aildroseddu. Gweler hefyd Ymyriadau *adeiladol* |
| LSC | Learning and Skills Council neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau |
| LSCB | Local Safeguarding Children Board neu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant : sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgîl Deddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau bod y gwaith amlasiantaeth o ddiogelu a hybu lles plant yn yr ardal honno'n cael ei wneud yn effeithiol. |
| MAPPA | Multi-Agency Public Protection Arrangements neu'r Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaeth; lle mae'r gwasanaethau prawf, heddlu, carchardai ac eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno Risg o Niwed uwch i eraill. |

| | |
|---|---|
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills neu'r Swyddfa Safonau mewn Addysg: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hyn yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn am hynny). |
| PCT | Primary Care Trust neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol |
| PPO | Prolific and other Priority Offender neu Droseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth: troseddwyr dynodedig, boed yn oedolyn neu'n berson ifanc, sy'n derbyn sylw ychwanegol gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol. |
| Cyn-CAF | Yn syml, 'Cais am Wasanaeth' yw hwn mewn sefyllfa lle nad oes efallai angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, e.e. Iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. |
| PSR | Pre-sentence report neu Adroddiad Cyn-dedfrydu: ar gyfer y llys |
| 'Cyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis' | Mesur a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n nodi faint o droseddau pellach a gofnodir i fod wedi cael eu cyflawni dros gyfnod o naw mis gan unigolion sy'n cael eu goruchwylio ar y pryd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol, a gall fod yn fwy neu'n llai na 100%.<br>Felly, byddai '110%' yn golygu bod yn union 110 o droseddau pellach wedi eu cyfrif i fod wedi cael eu cyflawni 'am bob 100 o unigolion dan oruchwyliaeth' dros y cyfnod hwnnw. Y gyfradd gyfartalog genedlaethol ar gyfer Lloegr ar ddechrau 2009 oedd 85%. |
| RMP | Risk management plan neu Gynllun Rheoli Risg: cynllun i leihau Risg yr unigolion o achosi Niwed. |
| *RoN* | Risg o Niwed i eraill. Gweler hefyd Ymyriadau *cyfyngu* |
| *'Gwaith RoN', neu 'Waith Risg o Niwed'* | Dyma'r term a ddefnyddir fel arfer gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith a wneir i warchod y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio *ymyriadau cyfyngu*, er mwyn lleihau unrhyw gyfle sydd gan yr unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi Risg o Niwed i eraill |
| RoND | Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn Asset. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf EM beidio â defnyddio'r term hwn oherwydd nid yw'n helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng *pa mor debygol* yw rhywbeth o ddigwydd ac *effaith/difrifoldeb* y digwyddiad. Mae'r term *Risg o Niwed Difrifol* yn ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod '*Risg o Niwed*' yn golygu y gellir rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny lle mae ymddygiad niweidiol sy'n cael llai o *effaith /* sy'n llai *difrifol* yn *debygol.* |
| Diogelu | Gallu dangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau'r risg bod plentyn neu berson ifanc yn cael niwed. |
| SIFA | Screening Interview for Adolescents neu Gyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr arbenigol. |
| SQIFA | Screening Questionnaire Interview for Adolescents neu Gyfweliad Holiadur Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc. |
| VMP | Vulnerability management plan neu Gynllun Rheoli Statws Agored i Niwed: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn sy'n cael ei oruchwylio. |
| YJB | Youth Justice Board neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr |
| YOI | Young Offenders Institution neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc : sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc sydd wedi eu carcharu ar remand neu wedi eu dedfrydu i garchar. |
| YOIS+ | Youth Offending Information System neu'r System Gwybodaeth Troseddau Ieuenctid: un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddwyr ifanc a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd Careworks. |
| Gwasanaeth TI | Gwasanaeth/Tîm Troseddwyr Ifanc |

© Hawlfraint y Goron

Arolygiaeth Prawf EM
6ed Llawr, Trafford House
Chester Road
Stretford
Manceinion
M32 0RS
Rhif Ffôn - 0161 869 1300

Mae copïau o’r ddogfen hon ar gael mewn fformat gwahanol ar gais

ISBN 978-1-84099-294-6